

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

### Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

#### Craffu ar Brexit

#### Cyflwyniad

1. Cyflwynir y papur hwn cyn imi ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf.
2. Mae'r papur hwn yn cwmpasu'r meysydd a nodwyd ymlaen llaw gan y Pwyllgor i roi sylw penodol iddynt, ochr yn ochr â rhai o'm blaenoriaethau a chamau gweithredu diweddar, i fynd i'r afael â'r heriau ac i groesawu'r cyfleoedd yn sgil Brexit. Dylid hefyd ei ddarllen ochr yn ochr â'm papur tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid dyddiedig 27 Mehefin ar yr hyn a fydd yn disodli ffrydiau cyllido'r UE.
3. Mae Brexit yn dod â heriau a newidiadau mawr yn ei sgil ac mae'n wir bod hyn wedi creu teimladau o ansicrwydd ledled y wlad. Fel Llywodraeth, ein dyletswydd yw sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r problemau yn uniongyrchol ac yn manteisio ar bob cyfle er lles Cymru ac i sicrhau Ffyniant i Bawb. Hyd yn oed cyn Brexit, roedd yr achos dros newid yn gryf, ac ar ôl Brexit, nid oes modd osgoi diwygio.
4. Fy mhrif flaenoriaeth o'r cychwyn oedd ymgysylltu'n gynnar ac yn effeithiol â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn nodi'r goblygiadau a'r cyfleoedd yn sgil ymadael â'r UE ar ein sectorau. Fe wnaethom ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid drwy sefydlu Bord Gron Brexit. Mae ein dull traws-sectoraidd wedi ein galluogi i ystyried y materion mewn modd integredig, er enghraifft, ar bob rhan o'r gadwyn gyflenwi a chydabod y cysylltiadau anorfod rhwng amaethyddiaeth, cymunedau a'r amgylchedd. Mae wedi ychwanegu gwerth sylweddol. Mae'r ffaith bod gennym bobl gyffrous a phrofiadol sy'n cydweithio i sicrhau bod Brexit mor llwyddiannus â phosibl yn gryfder.
5. Rydym wedi diffinio pum maes blaenoriaeth penodol, sy'n ein galluogi i barhau i adeiladu momentwm wrth inni nesau at Brexit ac ar gyfer y dyfodol y tu hwnt i hynny:
  - Cyfrannu at negodiadau'r DU. Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn bod angen sedd wrth y bwrdd ar Gymru.
  - Deddfwriaeth. Rydym yn paratoi ar gyfer deddfwriaeth y DU a Chymru i sicrhau parhad y fframwaith cyfreithiol.
  - Systemau gweithredu ar ôl Brexit. Rydym yn gweithio gyda Defra ac Adrannau eraill Llywodraeth y DU ar y cydbaratodau angenrheidiol, yn ogystal â datblygu'r datrysiadau angenrheidiol ar gyfer Cymru yn unig.
  - Llundio polisiau newydd ar gyfer bwyd, amaethyddiaeth a physgodfeydd. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac eraill i sicrhau bod ein polisiau'n addas ar gyfer y presennol a'r dyfodol.

- Sefydlu ffyrdd o weithio ar ôl Brexit rhwng Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y DU. Rydym yn gweithio ar fframweithiau a systemau o fewn y DU, Cymru a thu hwnt.

## **Y Negodiadau**

6. Rwy'n parhau i gael cyfarfodydd pedairochrog rheolaidd gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon.
7. Mae'r cyfarfodydd yn gyfle inni drafod materion allweddol megis parodrwydd gweithredol, fframweithiau cyffredin a chyllid. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein sectorau'n cael eu paratoi, gan adeiladu ar y gwaith yr ydym eisoes wedi'i wneud yng Nghymru. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn gweithio ar y cyd i roi'r fframweithiau angenrheidiol ar waith i alluogi'r DU i weithredu yn y dyfodol.
8. Erbyn hyn mae gennym raglen ffurfiol ar y cyd â Defra a'r gweinyddiaethau eraill, sy'n gam cadarnhaol ymlaen, yn enwedig o gofio pwysigrwydd Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig i Gymru.
9. Mae trafodaethau am sefyllfa'r DU ar gyfer negodiadau ynghylch y berthynas â'r UE yn y dyfodol hefyd yn cael eu cynnal mewn fforwm ar draws y DU a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Mai. Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, yw'r Gweinidog sy'n arwain ar hyn ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn cael eu cynrychioli pan fydd yr agenda yn adlewyrchu'r eitemau perthnasol o fewn y portffolio.
10. Bydd y cyfarfodydd Gweinidogol hyn yn seiliedig ar drafodaethau ar lefel swyddogion o dan 24 o benawdau gwahanol. Mae rhai o'r rhain, megis amaethyddiaeth, cynhyrchion bwyd a physgodfeydd, yn rhan benodol o'm portffolio i ac mae fy swyddogion eisoes wedi cymryd rhan mewn trafodaethau gyda chydweithwyr yn Whitehall a Gweinyddiaethau Datganoledig, i drafod meysydd megis pysgodfeydd, ynni, a mesurau i sicrhau iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion. Mae gennym fuddiant cryf a byddwn yn chwarae rhan weithgar mewn trafodaethau trawsbynciol eraill megis ar nwyddau, trafnidiaeth a thollau.
11. Mae fy nghyfarfodydd Bord Gron rheolaidd yn fy ngalluogi i glywed pa fath o berthynas y mae rhanddeiliaid ei heisiau gyda'r UE yn y dyfodol ac maent yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd masnach rydd a dirwysr gyda diwydiannau'r UE. O'm rhan i, byddaf yn parhau i bwysu ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Ffermio a Materion Gwledig i sicrhau hyn yn ein cyfarfodydd Pedairochrog rheolaidd

## **Deddfwriaeth**

### Deddfwriaeth Gywiro Brexit

12. Fy mhortffolio i sy'n cynnwys y swm mwyaf o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE, y bydd angen ei chywiro erbyn y diwrnod ymadael i sicrhau llyfr statud gweithredol.

Ni ellir tanamcangyfrif y dasg gan na fu adeg erioed o'r blaen pan fo'n rhaid ystyried cymaint o ddeddfwriaeth o fewn amserlen mor fyr.

13. Er mwyn rhoi rhywfaint o gyd-destun i faint y dasg, mae bron i 900 o ddarnau o ddeddfwriaeth uniongyrchol berthnasol yr UE yn fy mhortffolio a bron i 400 o ddarnau o ddeddfwriaeth ddomestig. Ni fydd angen diwygio pob un o'r rhain ond bydd angen diwygio'r mwyafrif helaeth ohonynt.
14. Deddfwriaeth y DU yw llawer o'r rhain wrth gwrs ac rydym yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y ffordd orau o gyflawni cynifer o gywiriadau i sicrhau bod llyfr statud cydlynol ar gael i bawb a fydd o dan rwymedigaethau i barhau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar y diwrnod ymadael ac wedi hynny.
15. Mae llawer o'n deddfwriaeth Gymreig hefyd yn rhyngddibynnol ar yr hyn sy'n uniongyrchol berthnasol ac efallai y bydd angen adlewyrchu'r cywiriadau a wneir i'r rhain hefyd mewn unrhyw offerynnau statudol Cymreig cysylltiedig.
16. Oherwydd y cysylltiadau a'r dibyniaethau hyn rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi dibyniaethau allweddol, y mae angen eu hadlewyrchu yn rhaglenni'r DU a Chymru o osod offerynnau cywiro.
17. Er bod diffyg sicrwydd o hyd ynghylch perthynas y DU gyda'r UE yn y dyfodol ac unrhyw gyfnod pontio, rydym wrthi'n gweithio i gyflwyno Offerynnau Statudol cywirol ar ddiwedd 2018 i sicrhau eu bod ar waith ar gyfer Mawrth 2019.
18. Fodd bynnag, byddwn yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU i asesu a oes angen unrhyw newidiadau i'r amserlen hon yng ngoleuni'r trafodaethau parhaus rhwng y DU a'r UE.

### Deddfwriaeth Sylfaenol

19. Yn ogystal â rhaglen o ddeddfwriaeth gywiro eilaidd, rydym hefyd yn ystyried lle y bydd angen deddfwriaeth sylfaenol arnom i fynd i'r afael ag effeithiau Brexit.
20. Rydym eisoes wedi ymrwymo i gau'r bylchau llywodraethu amgylcheddol a achosir drwy adael yr UE ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf.
21. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei dogfen ymgynghori yn amlinellu ei chynigion ar gyfer Bil Egwyddorion a Llywodraethu Amgylcheddol. Mae wedi nodi ei bod yn bwriadu cyhoeddi Bil drafft rhywbryd yn yr hydref. Dylwn bwysleisio bod yr ymgynghoriad yn nodi mai Lloegr yn unig yw cwmpas daearyddol y cynigion ac ar gyfer materion a gedwir yn ôl.
22. Er fy mod wedi cael trafodaethau parhaus gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar y mater hwn, ni chawsom lawer o rybudd ymlaen llaw o'r cyhoeddiad. Byddai mewnbyn gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn arbennig o bwysig ar yr ymgynghoriad hwn o ystyried y gydawdurdodaeth rhwng Cymru a Lloegr a'r goblygiadau barnwrol ehangach, gan gynnwys materion sydd heb eu datganoli.

23. Rydym mewn sefyllfa wahanol i Lywodraeth y DU mewn perthynas â rôl egwyddorion amgylcheddol. Rydym wedi gosod datblygu cynaliadwy wrth wraidd ein trefniadau llywodraethu yng Nghymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wedi ymgorffori egwyddorion amgylcheddol allweddol yn Neddf yr Amgylchedd.
24. Fodd bynnag, rwyf wedi datgan o'r cychwyn fy mharodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r bylchau hyn, yn enwedig gan fod gennym brofiad sylweddol yng Nghymru o egwyddorion datblygu cynaliadwy ac amgylcheddol ac wedi cyflawni cydnabyddiaeth ryngwladol drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.
25. Byddwn yn parhau i drafod gyda'r DU ei chynigion i asesu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r bylchau llywodraethu amgylcheddol gan gynnwys y cwmpas daearyddol. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi yn ei hymgyngoriad barodrwydd i drafod y posibilrwydd o lunio cynigion ar y cyd â'r gweinyddiaethau datganoledig a bydd fy swyddogion a minnau yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i ystyried y datrysiad gorau posibl i Gymru, gan gynnwys sicrhau nad oes effaith negyddol ar ein deddfwriaeth sy'n cael ei chydabod yn rhyngwladol.
26. Wrth gwrs, rydym wrthi'n datblygu ein cynigion ein hunain i ymateb i'r bylchau llywodraethu hyn ac rydym eisoes wedi ymrwmo i gau'r bwlch llywodraethu amgylcheddol a achosir yn sgil gadael yr UE ar y cyfle deddfwriaethol priodol cyntaf.
27. Croesawaf adroddiad y Pwyllgor ar 'Drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit' a nodaf ei gwestiynau penodol ynghylch sefydlu corff llywodraethu ar lefel y DU ac ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn y gyfraith.
28. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn a byddwn yn darparu gwybodaeth bellach ar ein cynigion maes o law, ochr yn ochr ag ymateb i bob un o argymhellion y Pwyllgor.

#### Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU

29. Sefydlwyd is-grŵp o swyddogion y DU i ymchwilio i faterion datganoli sy'n ymwneud â Bil Amaethyddiaeth y DU.
30. Mae Defra wedi egluro bod disgwyl i'r Bil Amaethyddiaeth gael ei gyflwyno ganol mis Gorffennaf ac rydym yn trafod cymalau drafft gyda Defra wrth i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau. Mae swyddogion yn gweithio gyda Defra a fydd yn gwneud popeth o fewn eu gallu i alluogi cyflwyno'r bil ym mis Gorffennaf.
31. Rwy'n ystyried cyflwyno Bil Amaethyddiaeth i Gymru yn ogystal â chynnwys darpariaethau dros dro ar gyfer pontio ym Mil Amaethyddiaeth arfaethedig y DU i sicrhau y gallwn barhau i wneud taliadau tan 2020 a datblygu systemau newydd.

32. Bydd unrhyw wybodaeth y bydd Defra yn ei rhannu yn gyfrinachol iawn gan fod cymalau ar ffurf drafft o hyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parchu cyfrinachedd ac yn gobeithio y bydd hyn yn caniatáu trafodaeth agored ac adeiladol yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol a rhannu gwybodaeth rhwng y gweinyddiaethau.

### Bil Pysgodfeydd

33. Mae'r diwydiant pysgota a'n hamgylchedd morol yn cael eu rheoleiddio'n drwm gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, a bydd llawer o'r ddeddfwriaeth hon yn dod yn gyfraith yr UE a gedwir fel y'i diwygiwyd drwy'r Offerynnau Statudol o dan y Bil Ymadael.

34. Fodd bynnag, bydd angen inni gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn dilyn ymadael â'r UE i ddisodli deddfwriaeth etifeddol Ewropeaidd, y caiff y rhan fwyaf ohoni ei harbed gan fân ddiwygiadau sy'n ei gwneud yn rhywbeth 'gweithredadwy' yn hytrach na'r gyfraith orau, pan fydd unrhyw gyfnod gweithredu yn dod i ben. Yn benodol, bydd angen inni gymryd camau mewn perthynas â phennu cyfleoedd pysgota yng Nghymru, rheoli a gorfodi a gwyddoniaeth a thystiolaeth.

35. Rydym yn barod i weithio gyda Defra ar ei chynigion ar gyfer pysgodfeydd yn Lloegr ac i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn cael effaith andwyol ar flaenoriaethau datganoledig.

### Ar ôl ymadael â'r UE

36. Mae deddfu ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl ymadael â'r UE yn helpu i gadw'r sefyllfa fel y mae ond rydym wedi cydnabod wrth gyflwyno Deddf yr Amgylchedd, bod rhaglen ddiwygio ddeddfwriaethol fawr yn dal i fod yn ofynnol i sicrhau bod ein fframwaith deddfwriaethol yn gwbl effeithiol ac effeithlon.

37. Wrth gwrs, byddwn yn ceisio parhau i gyflwyno deddfwriaeth, sy'n cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu er budd pobl Cymru yn ogystal ag edrych ar sut y gallwn ddatblygu ein rhaglen ddiwygio deddfwriaethol i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

### **Systemau Gweithredol ar ôl Brexit.**

38. Sefydlwyd y Rhaglen Parodrwydd Mewnol o fewn Rhaglen Brexit ehangach ar Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig i fonitro'r tasgau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau parodrwydd gweithredol ar y diwrnod cyntaf (a phontio) ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

39. Mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos ag Adrannau Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig ers dros flwyddyn i ganfod ble y bydd angen rhoi prosesau neu systemau newydd ar waith, mor gynnar â 30 Mawrth 2019, yn seiliedig ar senario "dim bargaen". Bydd angen y mwyafrif o'r prosiectau hefyd os mabwysiedir cyfnod gweithredu hyd at ddiwedd 2020 ond gall yr amseroedd fod yn wahanol. Mae llawer o'r prosiectau hyn yn dibynnu ar

gytundeb ar fecanweithiau ariannu, deddfwriaeth a fframweithiau llywodraethu/cyflawni.

40. Ar hyn o bryd mae 64 o brosiectau parodrwydd gweithredol dan ystyriaeth, sy'n cyfateb yn fras â chyfrifoldebau cyfochrog Defra, y gellir eu rhannu'n categorïau fel a ganlyn.

Categorïau	Nifer y Prosiectau
Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion	19
Bwyd	2
Yr Amgylchedd	13
Ffermio	13
Pysgodfeydd	7
Gwyddoniaeth	4
Materion Masnach a Ffiniau	6

41. Yn ogystal â'r ddau brosiect bwyd, mae gan brosiectau eraill gysylltiadau uniongyrchol neu anuniongyrchol â'r sector bwyd, er enghraifft, ffermio a physgodfeydd fel cynhyrchwyr cynradd ac ati.
42. Hyd yma, mae llawer o'r gwaith ar y prosiectau wedi bod yn seiliedig ar ofynion a fframweithiau deddfwriaethol. Bellach mae'n bryd dechrau symud i'r cam cyflawni nesaf.
43. Mae llawer o'r prosiectau yn elwa o ddull cydweithredol ag Adrannau Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. Mae eraill yn cael eu darparu orau ar lefel Cymru yn unig. Fodd bynnag, bydd prosiectau yr ystyrir eu bod yn rhai a gedwir yn ôl neu a gaiff eu cyflawni'n unigol gan bob gweinyddiaeth yn dal i elwa o gyfnewid gwybodaeth a chydweithio. Mae fy swyddogion wedi categoreiddio'r lefel o gydweithio ar gyfer pob prosiect, ac mae Gweinyddiaethau eraill wrthi'n cytuno'n ffurfiol i hynny.

#### Cronfa Bontio'r UE

44. Ar 18 Mehefin cyhoeddodd y Prif Weinidog rai o'r prosiectau cyntaf a fydd yn derbyn rhan o Gronfa Bontio'r UE gwerth £50 miliwn. Mae'r gronfa'n rhan o'n cynlluniau Brexit i helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol ar gyfer ymdopi â'r newidiadau sylweddol arfaethedig.
45. Sicrhawyd arian o'r gronfa i fuddsoddi, yn wreiddiol, mewn pedwar cynnig prosiect yn y portffolio Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig:
- Meincnodi ar gyfer y sector cig coch (£2.15 miliwn), a fydd yn efelychu'r gwaith llwyddiannus a wnaethom gyda'r sector Llaeth yng Nghymru drwy'r prosiect Cymorth Amodol i'r Sector Llaeth. Bydd yn cefnogi 2,000 o ffermwyr cig eidion a defaid i feincnodi eu perfformiad ariannol a thechnegol er mwyn iddynt nodi meysydd o'u busnes y gellid eu gwella.

- Gwaith ar gyfnewid nwyddau sy'n cael eu mewnfario am gynnyrch domestig (£100,000). Gwyddom y bydd cyfleoedd i gyfnewid nwyddau sy'n cael eu mewnfario am nwyddau domestig i ddiogelu mwy o'n cadwyni cyflenwi bwyd a chynhwysion bwyd yng Nghymru a'r DU.
- Bydd Trawsnewid Systemau Rheoli Pysgodfeydd y Llywodraeth ar gyfer Ymadael â'r UE, (£390,000) yn cefnogi gwaith parodrwydd mewnol, i ddatblygu systemau ardystio allfario newydd ar gyfer pysgodfeydd a darparu'r wyddoniaeth a fydd yn sail i reoli pysgodfeydd yn y dyfodol.
- Bydd gwaith ar gefnogi Sectorau Pysgodfeydd a Dyframaethu Cymru (£440,000) yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gefnogi busnesau pysgodfeydd a dyframaethu i addasu i'r newidiadau sylweddol arfaethedig.

**34.** Mae cynigion pellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i fynd i'r afael â heriau'n gysylltiedig â Brexit sy'n wynebu busnesau ar draws sawl sector.

### **Datblygu polisi Llywodraeth Cymru**

#### Ffermio a Rheoli Tir yn y Dyfodol

46. Rwyf wedi cyhoeddi'r pum egwyddor i ategu cefnogaeth rheoli tir yn y dyfodol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Rhaid inni gadw rheolwyr tir ar y tir. Er mwyn cynhyrchu'r budd mwyaf posibl, mae'n rhaid i'r tir gael ei reoli'n weithredol gan y rhai sy'n ei adnabod orau. Dyma'r hyn sydd orau i'n hamgylchedd a'n cymunedau.
- Mae cynhyrchu bwyd yn parhau i fod yn hanfodol i'n gwlad.
- Bydd cymorth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddarparu nwyddau cyhoeddus i holl bobl Cymru. Mae cyfoeth ac amrywiaeth tirwedd Cymru yn golygu nad oes prinder nwyddau cyhoeddus i'w caffael, o aer glân, i reoli llifogydd, i gynefinoedd gwell.
- Dylai pob rheolwr tir gael y cyfle i elwa ar gynlluniau newydd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i reolwyr tir wneud pethau'n wahanol yn gyfnewid am gymorth.
- Mae arnom angen sector amaethyddol ffyniannus a gwydn yng Nghymru, beth bynnag yw natur Brexit. Er mwyn gwneud hyn yn realiti, mae angen inni newid y ffordd yr ydym yn cefnogi ffermwyr.

47. Rydym yn bwriadu, felly, cael dwy elfen o gymorth: un ar gyfer gweithgareddau economaidd ac un ar gyfer cynhyrchu nwyddau cyhoeddus. Bydd llawer o reolwyr tir yn gallu cynhyrchu'r ddau, ond ni ddylai cymorth ar gyfer cynhyrchu bwyd danseilio ein hamgylchedd naturiol.

48. Y nwyddau cyhoeddus amgylcheddol sydd dan sylw i'w cynnwys mewn cynlluniau yn y dyfodol yw:

- Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd (drwy gamau gweithredu gan gynnwys mwy o blannu coed)
- Lleihau perygl llifogydd
- Gwydnwch o ran cynefinoedd a'r ecosystem

- Ansawdd dŵr
- Ansawdd aer
- Cadwraeth y pridd
- Treftadaeth / tirwedd

49. Y rhestr o weithgareddau sy'n cael eu hystyried ar gyfer cymorth gwydnwch economaidd yw:

- Cymorth ar gyfer gwelliant cynaliadwy (cydweithredu, amaethyddiaeth fanwl)
- Cymorth i arallgyfeirio (ynni adnewyddadwy, twristiaeth, gwerth ychwanegol ar gynhyrchu bwyd)
- Cynyddu potensial y farchnad (marchnadoedd newydd, gwerth ychwanegol)
- Trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd
- Rheoli risg

50. Mae swyddogion yn ymgymryd â cham newydd o ymgysylltu'n ddwys â rhanddeiliaid i weithio ar y cyd ar syniadau ar gyfer cyflwyno'r egwyddorion hyn. Bydd y cynigion hyn yn cael eu cynnwys mewn dogfen ymgynghori i'w chyhoeddi ddechrau mis Gorffennaf.

51. Nid dim ond ar gyfer ffermwyr ac amaethyddiaeth y mae ein cynigion. Bydd y rhain yn gynigion ar gyfer rheoli tir, gan gynnwys ffermio a choedwigaeth.

### Pysgodfeydd

52. Mae Rheoli Pysgodfeydd yn faes sydd wedi'i reoleiddio'n drwm gan ddeddfwriaeth yr UE. Ar hyn o bryd mae'n cael ei reoli drwy'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin sy'n set o reolau ar gyfer rheoli fflydoedd Pysgota Ewropeaidd a gwarchod stociau pysgod. Fe'i cynlluniwyd i reoli adnodd cyffredin ac mae'n darparu mynediad cyfartal i ddyfroedd yr UE a thiroedd pysgota a'r cyfle i fflydoedd pysgota gystadlu'n deg.

53. Yng Nghymru, am resymau hanesyddol, mae'r fflyd yn un fach yn bennaf (tua 95%), sef cychod o dan 10m. Mae'r diwydiant pysgota yn dibynnu ar rywogaethau pysgod cregyn nad ydynt dan gwota, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt (90%) yn cael eu hallforio i'r UE neu wledydd eraill drwy drefniadau masnachu â'r UE. Mae'r Is-Weithgor Bord Gron ar Dystiolaeth a Senarios, a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, wedi tynnu sylw amlwg at bwysigrwydd mynediad parhaus dirwysr i'r farchnad. Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn y papur, mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi cyllid yn ddiweddar i helpu'r sectorau pysgodfeydd a dyframaethu i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE.

54. Mae gadael yr UE yn cyflwyno'r cyfle cyntaf i bennu polisi pysgodfeydd yng Nghymru gyda budd gorau pysgotwyr Cymreig a chymunedau arfordirol wrth ei wraidd. Byddaf yn nodi rhagor o fanylion yn ystod Dadl y Llywodraeth ar Brexit a'r Diwydiant Pysgota ar 3 Gorffennaf.



## Bwyd

55. Mae'r diwydiant bwyd a diod yn un o'n sectorau gweithgynhyrchu pwysig sy'n cysylltu amaethyddiaeth â defnyddwyr ledled Cymru gan werthu cynhyrchion ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae ei broffil yn tyfu. Mae pobl yn cymryd mwy o ddiddordeb yn yr hyn y maent yn ei fwyta a'i yfed, o ble mae'n deillio, sut mae'n cael ei gynhyrchu.
56. Caiff Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod Cymru ei gydnabod yn eang fel llwyddiant, gan ddarparu ffocws clir a gweithgaredd egniol.
57. Roedd ffigurau dros dro ar gyfer allforion bwyd a diod Cymru yn werth mwy na £500 miliwn yn 2017 ac yn nodi twf iach o 16% o ran gwerth o'r flwyddyn flaenorol. Mae marchnadoedd allforio fel yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn strategol bwysig.
58. Mae Brexit yn ystyriaeth allweddol oherwydd yr aflonyddwch y gallai ei achosi o ran sut mae cadwyni cyflenwi'r diwydiant yn gweithio a bygythiad tariffau a rhwystrau eraill. Yn ogystal, yn 2015, cafodd dros chwarter (27%) o'r rhai a gyflogir yn y maes gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru eu geni yn yr UE.
59. Mae Brexit hefyd yn rhoi'r cyfle i sefydlu polisiau a rhaglenni newydd i helpu'r diwydiant bwyd a diod i addasu a ffynnu. Fel y soniwyd yn gynharach yn y papur, mae gan fy Adran raglen parodrwydd sector ar y gweill gan gynnwys camau sy'n ategu'r cynllun gweithredu ar fwyd a diod.
60. Sefydlwyd chwe Chlwstwr Bwyd o fusnesau a chanddynt fuddiannau cyffredin. Mae'r rhain wedi creu diddordeb busnes sylweddol ac maent wedi dangos eu bod yn beiriant pwerus ar gyfer hyrwyddo mwy o dwf, gan gyflwyno cyfleoedd newydd ac ychwanegu gwerth.
61. Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos ac yn llwyddiannus gyda diwydiant - er enghraifft, yn y digwyddiad 'Tuck In' yn ddiweddar yng ngogledd Cymru rhoddwyd cyngor marchnata a brandio arbenigol pwrpasol i weithgynhyrchwyr bwyd ac fe'i cymeradwywyd yn eang gan y cwmnïau a'i mynychodd.
62. Cafwyd cryn lwyddiant o ran gwella canfyddiad ac enw da Bwyd a Diod o Gymru. Roedd 165 o enillwyr y wobwr Great Taste yn 2017 ac erbyn hyn mae gan 15 o gynhyrchion sy'n deillio o Gymru enwau bwyd a warchodir gan yr UE.
63. Rydym wedi datblygu brand llwyddiannus sy'n rhoi llwyfan cryf inni i hyrwyddo Cymru i'r byd. Mae Croeso Cymru yn defnyddio'r brand hwn i gyflwyno rhaglen uchelgeisiol a llwyddiannus o weithgaredd marchnata aml-sianel yn y DU ac yn rhyngwladol sy'n cynnwys hysbysebion teledu gydag ymgyrch a ddechreuodd ar Ddydd Gŵyl Dewi, ynghyd ag ymgyrchoedd digidol a digwyddiadau i hyrwyddo Cymru'n uniongyrchol i ddarparu ymwelwyr a gweithredwyr teithiau

64. Beth bynnag yw'r trefniadau masnachu, byddwn yn parhau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru fel cynhyrchion o ansawdd, a gynhyrchir i safonau rhagorol, y mae modd olrhain eu tarddiad ac, mewn sawl achos, cynhyrchion nodedig.
65. Mae Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn nodi bwyd a thwristiaeth fel sectorau sylfaen newydd yn yr economi. Maent yn asgwrn cefn sawl economi leol. Byddwn yn datblygu gweithgareddau galluogi traws-lywodraethol ar gyfer y sectorau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf. Bydd gweithio effeithiol ar draws y llywodraeth yn cynyddu'r manteision i'r eithaf.
66. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi buddsoddiad mewn busnesau bwyd a diod yng Nghymru drwy'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd a'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig. Darperir cymorth i gwmnïau bwyd a diod micro, bach a chanolog, sy'n ganolog i arloesi a thwf y diwydiant yn awr ac yn y dyfodol.
67. Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig hefyd yn buddsoddi £21 miliwn ym Mhrosiect Helix. Menter sy'n cael ei harwain a'i rheoli gan y tair canolfan dechnoleg fwyd yng Nghymru yw hon sydd â hanes hir a llwyddiannus o weithio'n agos gyda'r diwydiant. Mae hyn yn cael ei gyflawni o dan ymbarél y brand Arloesi Bwyd Cymru. Mae'r prosiect yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i helpu busnesau i arloesi, bod yn fwy cynhyrchiol, datblygu cynhyrchion newydd a gwella sgiliau.
68. Mae ein rhaglen Parod ar Gyfer y Farchnad / Parod ar gyfer Allforio gwerth £2,800,000 hefyd yn galluogi'r diwydiant i gadw a thyfu marchnadoedd presennol ar ôl Brexit, gartref ac yn rhyngwladol. Bydd hefyd yn paratoi'r diwydiant i ganiatáu amnewid cynhwysion pe amherir ar y gadwyn gyflenwi ar ôl Brexit.

## **Perthnasoedd y DU a Ffyrdd o Weithio ar Ôl Brexit**

### Fframweithiau

69. Mae fy swyddogion a minnau wedi parhau i gefnogi trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig i ymchwilio i fframweithiau posibl a chymryd rhan weithredol yn y trafodaethau hynny.
70. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu'n llawn at yr haen gyntaf o drafodaethau manwl ledled y DU ar fframweithiau cyffredin, a oedd yn cynnwys 22 o drafodaethau 'dan yr wyneb' ar feysydd gan gynnwys amaethyddiaeth a bwyd yn ogystal â'r amgylchedd, iechyd anifeiliaid a physgodfeydd.
71. Mae ail gam trafodaethau'r DU ar ddatblygu'r fframweithiau hyn bellach yn cael ei gynnegi. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y 24 maes fframwaith deddfwriaethol posibl a nodwyd yn y Cytundeb Rhynglywodraethol diweddar, y mae'r mwyafrif ohonynt yn berthnasol i'r portffolio Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. Bydd angen i'r trafodaethau adeiladu ar y gyfres gychwynnol o gyfarfodydd er mwyn ymchwilio ymhellach i ble mae angen fframweithiau mewn meysydd penodol.

## Cyllid

72. Fel y nodwyd yn fy mhapur i'r Pwyllgor Cyllid ar 27 Mehefin, rwy'n goruchwyllo bron i £340 miliwn y flwyddyn o'r £680m y flwyddyn o arian yr UE sy'n dod i Gymru.
73. Mae prif ffynhonnell yr arian ar gyfer fy mhortffolio yn deillio o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn benodol Colofn 1 - Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a fydd yn rhedeg o 2015-2020 a Cholofn 2 - y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mewn perthynas â Thaliadau uniongyrchol PAC Colofn 1, blwyddyn 2019 y cynllun fydd yr olaf i gael ei gweinyddu gan ddefnyddio cyllid a rheolau'r UE. Mewn perthynas â chynlluniau Colofn 2 PAC (y Cynllun Datblygu Gwledig), bydd ymrwymadau a wneir i adael y DU yn cael eu hanrhydeddu gan Warant Llywodraeth y DU am oes y cytundeb. Gwneir ymrwymadau newydd y tu hwnt i 2020 yng nghyd-destun Gwarant Llywodraeth y DU tan 2022.
74. Hyd yma, mae Llywodraeth y DU wedi methu â darparu unrhyw fanylion neu ymrwymiad y tu hwnt i 2022. Byddwn yn parhau i fynnu bod Cymru yn derbyn ei chyfran bresennol (10%) ac felly'n seiliedig ar angen, yn hytrach na chyfran y boblogaeth drwy Barnett (6%). Felly, byddaf yn parhau i geisio cytundeb â Llywodraeth y DU ar drefniadau ariannu yn y dyfodol. Mae angen cytuno ar fframwaith cyllido newydd rhwng pedair gwlad y DU, ac rwy'n awyddus i sicrhau ein bod wedi gweithio'n effeithiol ar y cyd rhwng llywodraethau i ystyried cynigion ar y cyd.
75. Mae angen trafodaeth bellach i gadarnhau'r union lefel o gyllid a fydd ar gael i Gymru a'r fformiwlâu ariannu sydd i'w mabwysiadu, y mecanwaith ar gyfer mesurau cymorth i'r farchnad ac arian i ddisodli mathau eraill o gyllid.

## Cynllun Cyflawni Rhaglen Dileu TB Cymru

63. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gofyn am ddiweddariad ar y cynnydd gyda Chynllun Cyflawni Rhaglen Dileu TB Cymru a ddaeth i rym ym mis Hydref 2017.
64. Mae naw mis wedi mynd heibio bellach ers i'n Rhaglen Dileu TB newydd gael ei chyflwyno ym mis Hydref y llynedd. Mae'r dull rhanbarthol o ddileu TB a pholisïau, megis gweithredu Profion ar Ôl Symud yn yr Ardal TB Isel a darparu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer achosion cyson o TB mewn busches yn dal i fod yn rhan o'r gwaith ac yn anochel bydd y camau hyn yn cymryd amser i effeithio ar yr ystadegau. Mae'n bwysig ein bod yn caniatáu digon o amser i'r mesurau hyn ddod i rym cyn inni ddod i unrhyw gasgliadau ystyrion am lwyddiant unrhyw bolisi unigol, er bod pob polisi yn destun adolygiad parhaus.
65. Mae adroddiad ar gyflawni'r ymyriadau moch daear a gynhaliwyd yn 2017 yn cael ei gwblhau ac fe'i cyhoeddir yn y dyfodol agos.
66. O ran ystadegau'r clefyd, mae'r data cyhoeddiedig diweddaraf yn cwmpasu'r 12 mis hyd at fis Mawrth 2018, oherwydd yr oedi o 2-3 mis cyn cyhoeddi'r ystadegau hyn. Mae'r ffigurau hyn yn dangos cynnydd o 13 y cant mewn digwyddiadau TB newydd mewn buchesi o gymharu â'r cyfnod 12 mis blaenorol. Dylid nodi bod y

duedd mewn digwyddiadau buches TB newydd yn aml yn gyfnewidiol. Dylid dehongli newidiadau tymor byr yn ofalus ac yng nghyd-destun tueddiadau hirdymor. Gallaf adrodd bod y duedd tymor hwy mewn digwyddiadau TB newydd ar i lawr ac, mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos, ers 2009 y bu gostyngiad o 34% mewn digwyddiadau newydd ymysg buchesi.

67. O ran adrodd ar gynnydd gyda'r Rhaglen Dileu TB yn gyffredinol, rydym eisiau sicrhau bod gennym yr ystadegau clefydau mwyaf ystyrion er mwyn darparu'r darlun mwyaf cyflawn o'r clefyd. O'r herwydd, rwy'n bwriadu gwneud datganiad ar gynnydd gyda'r Rhaglen Dileu TB ym mis Ebrill 2019, pan fydd gennym ddarlun blwyddyn galendr gyflawn (yn cwmpasu Ionawr-Rhagfyr 2018) o'r clefyd. Bydd hyn yn gyson â chyhoeddi'r Ystadegau clefydau cenedlaethol a bydd hefyd yn cyd-fynd â chyhoeddi Dangosfwrdd TB Chwarter 4 2018.

**Lesley Griffiths AC**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Gorffennaf 2018